| | |
|---|---|
| **Cyfarfod** | **Bwrdd y Cyngor** |
| **Dyddiad** | **16 Chwefror 2010** |
| **Adroddiad** | **Strategaeth Ariannol 2010/11- 2012/13** |
| **Argymhelliad** | **Ystyried argymhellion y Prif bwyllgor Craffu ac argymell cyllideb a chynnydd y Dreth Gyngor i'r Cyngor yn ei gyfarfod ar 25 Chwefror** |
| **Awdur** | **Dilwyn Williams, Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau** |
| **Arweinydd Portffolio** | **Cynghorydd Dylan Edwards** |

1 Yn ei gyfarfod ar 15 Rhagfyr bu'r Bwrdd yn ystyried y sefyllfa gyllidol debygol ar gyfer y cyfnod 2010/11 – 2012/13.

2 Adroddwyd ar y sefyllfa ddiweddaraf i'r Prif Bwyllgor Craffu yn ei gyfarfod ar 11 Chwefror gan ofyn iddo graffu'r adroddiad hwnnw. Mae yna gopi o'r adroddiad ynghlwm.

3 Mae yna nifer o faterion sy'n taro ar y strategaeth eleni ac oherwydd hynny mae'r adroddiad yn un eithaf maith. Fodd bynnag gellir crynhoi'r sefyllfa fel a ganlyn.

4 Mae'r sefyllfa gyffredinol ar gyfer 2010/11 wedi gwella ychydig yn sgil penderfyniad y Cyngor i godi Treth Gyngor ar rai anheddau gwag.

5 Gan wireddu'r holl ofynion gwario a nodir yn yr adroddiad, a chan gymryd ystyriaeth o'r ffaith fod y Cyngor eisoes wedi cymeradwyo pecyn arbedion cyfwerth a £4.05m, **a chan ddiystyru'r hyn sydd o'n blaenau yn 2011/12 a 2012/13**, 2.96% a nodir yn yr adroddiad y mae ei angen o ran cynnydd yn y Dreth Gyngor i sicrhau cyllideb gytbwys yn 2010/11. [Gweler cymal 9.6 yr adroddiad].

6 Fodd bynnag ers ysgrifennu'r adroddiad daeth i'r amlwg fod dyfnder y gofynion o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol yn fwy na ragwelwyd ar ddiwedd yr ail chwarter, a byddaf yn rhoi diweddariad i'r pwyllgor Craffu fydd yn golygu y bydd angen ystyried Treth Gyngor uwch os am ddiwallu'r gofynion hynny.

**7 Byddai'r cynigion sydd yn yr adroddiad yn golygu cynnydd yn y gyllideb o £211.8m yn 2009/10 i i £216.7m yn 2010/11 sef cynnydd o 1.67% gyda'r gyllideb Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynyddu 2.77%; y gyllideb addysg yn cynyddu 2.35% (2.3% ar gyfer y gyllideb ysgolion ddatganoledig) a gweddill gwasanaethau'r Cyngor yn wynebu gostyngiad cyfartalog yn eu cyllidebau o ychydig dros 4%. [Gweler Atodiad 3 yr adroddiad]**

8 O gofio'r sefyllfa ansicr sydd o'n blaenau gofynnwyd i'r pwyllgor Craffu ystyried a ddylid defnyddio'r cyfle i osod Treth Gyngor fydd yn caniatáu elfen o hyblygrwydd i ni wrth wynebu'r sefyllfa honno a thrwy wneud hynny wrth gwrs, lleihau maint yr arbedion y byddwn eu hangen yn y tymor hir. Gyda'r hyn a nodir yng nghymal 6 uchod efallai fod y sefyllfa honno bellach allan o'n dwylo.

9 Hwn mewn gwirionedd yw'r penderfyniad allweddol ond mae yna ystyriaethau eraill yn codi o ran adeiladu'r gyllideb refeniw. Yn benodol, mae yna gostau yn disgyn ar y Cyngor yn sgil allanoli stoc tai'r Cyngor a cholli cytundeb glanhau allanol (rhan 4 yr adroddiad sydd ynghlwm); ac mae yna anghenion cyllidebol ychwanegol parhaol ac unwaith ac am byth (rhoddir manylion yn rhannau 5 a 6 yr adroddiad).

10 Mae yna hefyd argymhellion o ran gosod rhaglen gyfalaf dwy flynedd yn unig (yn hytrach na'r tair blynedd a ragwelwyd wrth sefydlu strategaeth asedau) gan ein bod yn gwybod y bydd ein hadnoddau cyfalaf yn disgyn yn sylweddol o 2011/12 ymlaen, ac y byddai'n berygl ymrwymo'n ormodol am y tro hyd nes y byddwn yn gweld hyd a lled y gostyngiad hwnnw.

11 Golyga hyn y bydd gennym raglen gyfalaf o £15.8m yn 2010/11 ac £18.6m yn 2011/12 sydd bell uwchben y £9.8m a gawn yn flynyddol ar hyn o bryd drwy'r setliad. Dengys hyn y budd o gael Strategaeth Asedau er gwaethaf yr ansicrwydd ar gyfer y dyfodol. [Gweler rhan 7 yr adroddiad am fanylion]

12 Mae yna hefyd argymhelliad o ran ychwanegu at y reserf trawsnewid i gynllunio ar gyfer y dyfodol [cymal 8.6 ac 8.7] ac mae yna weithgor o'r Pwyllgor Craffu wedi edrych yn llwyddiannus ar y reserfau penodol i weld a oes modd rhyddhau elfennau i gynorthwyo gyda'r problemau y byddwn yn eu hwynebu i'r dyfodol [ cymalau 8.8. ac 8.9].

13 Bydd penderfyniadau'r Pwyllgor Craffu yn cael eu hadrodd i'r Bwrdd a byddwn yn gofyn iddo ystyried y sylwadau hynny gan ystyried y cynnydd yn y Dreth Gyngor y dylid ei argymell i'r Cyngor yn ei gyfarfod ar 25 Chwefror.

14 Er gwaethaf y sefyllfa ariannol ansicr sydd o'n blaenau, 'rwyf yn hyderus fod y camau y mae'r Cyngor eisoes wedi eu cymryd i gynllunio ar gyfer y sefyllfa yn talu ar ei ganfed ac y byddwn yn medru wynebu'r her yn hyderus fod y gwaith cynllunio yma am ein tywys drwy'r dyfroedd tymhestlog.

---

**A. Barn yr Aelodau Lleol/Views of the Local Member:**

Dim yn fater lleol / Not a local issue.

---

**B. Barn y Swyddogion Statudol/The View of the Statutory Officers:**

**1. Prif Weithredwr/Chief Executive:**

Wrth i'r Bwrdd ystyried yr adroddiad sydd gerbron, mae'n gorfod ceisio taro'r balans rhwng arbedion, anghenion gwario, buddsoddi a lefel Treth y Cyngor. Wrth gwrs, mae'r gwaith a gyflawnwyd gan y Cyngor yn cytuno Strategaeth Arbedion ar gyfer 2011/14 a Chynllun Rheoli Asedau ar gyfer y 10 mlynedd nesaf yn cynnig ychydig fwy o sicrwydd I'r Cyngor o ran rhai o'r elfennau hynny.

Wedi dweud hynny, mae llawer o faterion yn parhau i'w hystyried o ran y balans hynny sydd i'w daro gan gofio bod y Bwrdd yn gwneud ei argymhelliad i'r Cyngor yng nghyd-destun darlun cyllidol tymor hwy sydd yn hynod o heriol.

*As the Board considers the report, it has to strike a balance between the spending and investment needs, savings and level of council tax. Of course the work done by the Council to agree a savings staretgy for 2011/14 and an Asset Management Plan for the next 10 years offers the Council greater certainty in respect of some of those elements.*

*Having said as much, many elements of that balance remain to be decided bearing in mind of course the extremely challenging financial future which the Council faces.*

**2. Swyddog Monitro/Monitoring Officer:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o ran priodoldeb.
*No observations to add in terms of propriety.*

**3. Prif Swyddog Cyllid/Chief Finance Officer:**

Rwyf wedi bod yn rhan o drafodaethau perthnasol wrth i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol lunio'r strategaeth ariannol am 2010/11 - 2012/13, ac mae ein cyfrifwyr wedi ymlynu at drefniadau costio proffesiynol wrth osod cyllidebau adrannau'r Cyngor yn ddarbodus. Yn gyffredinol, rwy'n argyhoeddedig fod y gyllideb a argymhellir ar sail amcangyfrifon priodol o anghenion gwario 2010/11 a thu hwnt.

Mae un eithriad i hyn, oherwydd yn y dyddiau diwethaf, cyflawnwyd ein hadolygiad 3ydd chwarter o gyllideb refeniw y flwyddyn gyfredol. Mae'n dangos fod modd rheoli cyllidebau'r Cyngor yn 2009/10, ond fod tueddiadau gwariant cynyddol gan y Gwasanaethau Cymdeithasol erbyn 2010/11 sy'n

fwy na ragwelwyd yn yr adolygiad chwarterol blaenorol a darparwyd amdano. Fel dywedai rhan 6 o adroddiad blaen y Cyfarwyddwr Corfforaethol, adroddir ymhellach ar lafar ynglŷn ag ymhlygiad hyn ar gyllideb a lefel treth 2010/11.

Gan nad oes sicrwydd y bydd holl elfennau'r cynlluniau i arbed yn aeddfed i'w gwireddu dros y 2-3 blynedd nesaf, rwy'n tanlinellu cynnwys rhan 8.3 o adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol, ac yn cytuno dylid cadw isafswm o £7.6m o falansau cyffredinol wrth gefn y Cyngor i'w gynorthwyo drwy unrhyw drafferthion anrhagweledig.

Bu raid gwneud penderfyniadau dewr parthed rhai amcangyfrifon, ond gyda chefnogaeth i'r argymhellion gerbron, credaf gallwn gadw rheolaeth dros gyllid Cyngor Gwynedd yn 2010/11. Wedi'r camau a gymerwyd eisoes gan y Cyngor (adnabod arbedion er mwyn ymateb i'r amgylchiadau heriol sydd o'n blaenau dros y blynyddoedd nesaf), rwy'n credu fod y strategaeth ariannol yma'n briodol a darbodus. Fodd bynnag, gyda rhywfaint o risg anochel yn y strategaeth ariannol eleni, diau y bydd aelodau'r Cyngor awydd pwysleisio'r disgwyliad i'r holl benaethiaid adrannau sicrhau'r arbedion a gynlluniwyd a rheoli eu gwariant yn ddisgybledig er mwyn byw o fewn cyfyngiadau eu cyllidebau yn 2010/11.

*I have been involved in relevant discussions as the Corporate Director devised this financial strategy for 2010/11 – 2012/13, and our accountants have adhered to professional costing conventions while prudently setting the Council's departments' budgets. Generally, I am convinced that the budget recommended is based on proper estimates of spending needs for 2010/11 and beyond.*

*There is one exception to this, because in the last few days we completed the 3rd quarter review of the current year's revenue budget. This shows that it will be possible to control the Council's budget for 2009/10, but that the Social Services have trends for increasing expenditure by 2010/11 which is greater than that foreseen and provided for after the previous quarterly review. As stated in part 6 of the Corporate Director's front report, this will be reported upon further at the meeting with regard to the budgetary implications and 2010/11 Council Tax levels.*

*As there is no certainty that every element of the savings schemes will be sufficiently mature to be realized over the next 2-3 years, I underline the content of part 8.3 of the Corporate Director's report, and agree that a minimum of £7.6m general balances should be retained to support the Council through any unforeseen difficulties.*

*It was necessary to make brave decisions on some estimates, but with support for the recommendations submitted, I believe that we will be able to keep control of Gwynedd Council's finances for 2010/11. Further to the measures already taken by the Council (identification of savings in order to respond to the challenging circumstances facing us over the next years), I believe that this financial strategy is appropriate and prudent. However, with some risk being inevitable in this year's financial strategy, doubtless the Council's elected members will wish to emphasize the expectation that all departments' heads should secure the planned savings and control their expenditure in a disciplined manner in order to live within the limits of their budgets for 2010/11.*